Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Frongoch

**Ffordd Y Rhyl**
**Dinbych**
**LL16 3DP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Frongoch

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Iau Frongoch |
| Awdurdod lleol | Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 214 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 214 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | . |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%)* | 12.2% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a)<br><br>(*Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 14.6% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 5% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3.5% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 11-11-2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

(a) Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod:
[fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

## Trosolwg

Mae Ysgol Frongoch yn ysgol hapus a gofalgar lle mae disgyblion yn gweithio a chwarae gyda'i gilydd yn hyderus. Mae staff yn helpu llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau siarad a gwrando, mathemategol a digidol. Maent yn canolbwyntio'n dda ar les disgyblion, ac mae hyn yn galluogi disgyblion i ffynnu yn amgylchedd cynhwysol yr ysgol. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a'u medrau meddwl yn dda mewn llawer o agweddau ar eu dysgu.

Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i syniadau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm, ac mae hyn yn helpu sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu'n gyson dda mewn gwersi. Er bod athrawon yn cynllunio llawer o brofiadau dysgu diddorol, nid yw'r rhain bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau disgyblion yn systematig. Mae hyn yn golygu nad yw medrau rhai disgyblion bob amser yn datblygu'n ddigon cryf mewn meysydd fel darllen ac ysgrifennu. Mae athrawon yn dechrau helpu disgyblion i ddeall sut i asesu a gwella eu dysgu yn annibynnol, ond nid oes gan athrawon a disgyblion ddealltwriaeth gyson gryf o sut orau i gyflawni hyn.

Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu disgyblion fel dysgwyr annibynnol sy'n gwybod sut i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiadau ac sy'n cynorthwyo eu cyfoedion yn fuddiol. Maent yn canolbwyntio'n dda ar sicrhau bod pob un o'r staff yn teimlo eu bod yn rhan o dîm yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod pawb, gan gynnwys llywodraethwyr, yn deall blaenoriaethau'r ysgol ac yn gweithio gyda'i gilydd yn gefnogol. Serch hynny, wrth fonitro a gwerthuso gwaith yr ysgol ac wrth gynllunio dysgu proffesiynol, nid yw arweinwyr bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar feysydd sydd angen eu gwella, fel gwella ansawdd yr addysgu a chynllunio ar gyfer gweithredu diwygio addysgol.

## Argymhellion

A1 Canolbwyntio strategaethau hunanwerthuso a datblygu yn graffach ar wella cynnydd a dysgu disgyblion

A2 Datblygu ymagwedd fwy strategol at ddysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ddiwygio addysg a sicrhau addysgu o ansawdd uchel

A3 Gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn ymuno â'r ysgol ym Mlwyddyn 3 gyda medrau a dealltwriaeth sy'n debyg i, neu uwchlaw, y rhai a ddisgwylir ar gyfer eu cyfnod datblygu. Er bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn llawer o feysydd dysgu, nid yw eu medrau darllen ac ysgrifennu bob amser yn datblygu mor llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn meddwl yn greadigol, yn gweithio'n dda mewn timau, ac yn datblygu eu medrau datrys problemau â hyder cynyddol. Maent yn defnyddio'r rhain i ddod o hyd i atebion i broblemau maent yn eu hwynebu ac ymestyn eu dysgu, er enghraifft wrth ddod o hyd i ffyrdd o adeiladu pontydd i gario pwysau cynyddol.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando cryf. Maent yn gwrando gan ddangos diddordeb a chanolbwyntio ar eu cyd-ddisgyblion ac ar oedolion. Mae llawer o ddisgyblion yn esbonio eu syniadau ac yn rhannu eu barn yn glir. Maent yn ymuno â thrafodaethau grŵp ac yn ymateb i sylwadau pobl eraill yn sensitif, er enghraifft wrth rannu syniadau am amodau byw yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall yn dda sut i strwythuro eu hysgrifennu at wahanol ddibenion, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyrau a chyfarwyddiadau. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn dysgu defnyddio iaith fwy perswadiol a disgrifiadol yn feddylgar. Defnyddiant y medrau hyn yn briodol wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth berswadio pobl eraill i ymgymryd â gweithgarwch corfforol i aros yn iach. Mae lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu disgrifiadau a storïau hirach a mwy cynhwysfawr yn feddylgar. Nid yw ychydig o feysydd medrau ysgrifennu disgyblion mor gryf. Er enghraifft, tuag at ddiwedd yr ysgol, mae disgyblion yn cymysgu amseroedd berfau yn anghywir yn eu hysgrifennu ac nid ydynt yn defnyddio paragraffau'n briodol. Nid yw tua hanner ohonynt yn sillafu'n ddigon da ac nid ydynt yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau addas yn annibynnol a gan ddal ati i ganolbwyntio. Maent yn galw i gof ac yn nodi'n gywir brif bwyntiau'r testunau y maent wedi'u darllen. Mae disgyblion yn nodi, yn casglu ac yn trefnu gwybodaeth a syniadau o'r adnoddau ysgrifenedig a ddarperir gan athrawon ac yn defnyddio hyn i ymestyn eu dealltwriaeth o feysydd eraill y cwricwlwm yn dda, fel eu gwaith hanes. Fodd bynnag, mae diffyg addysgu o ran medrau darllen yn golygu bod ystod strategaethau disgyblion yn rhy gyfyng i ddarllen geiriau ac ymadroddion mwy anodd. Lleiafrif ohonynt yn unig sy'n darllen testunau mwy cymhleth yn rhugl neu'n datblygu medrau darllen uwch yn dda, fel y gallu i ddod i gasgliad am syniadau nad ydynt yn cael eu datgan yn eglur.

Pan fyddant yn dechrau ym Mlwyddyn 3, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau Cymraeg effeithiol, ond gan nad yw pob un o'r athrawon yn hyderus yn addysgu'r iaith, nid yw'r medrau hyn yn datblygu'n dda ym mhob grŵp blwyddyn. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geiriau a brawddegau syml yn Gymraeg, fel trafod eu hoffterau a'u casbethau. Maent yn rhannu gwybodaeth sylfaenol amdanyn nhw eu hunain, fel disgrifio lliw eu llygaid neu'u gwallt. Mae ychydig o ddisgyblion, ac yn enwedig y rhai sydd â rhywun gartref i'w helpu i ddatblygu eu Cymraeg, yn siarad ac

yn darllen brawddegau mwy cymhleth yn dda. Fodd bynnag, erbyn diwedd Blwyddyn chwech, nid yw medrau Cymraeg y mwyafrif o ddisgyblion wedi'u datblygu'n dda.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau mathemategol cryf. Er enghraifft, erbyn Blwyddyn 6, maent yn adio a thynnu rhifau i dri lle degol yn gywir ac yn defnyddio ffeithiau am luosi i ddatrys problemau rhannu yn dda. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn trosglwyddo eu medrau mathemategol i amrywiaeth o wahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm yn effeithiol, er enghraifft wrth gyfrifo pellterau ar fap o Awstralia neu greu graffiau o hoff ganeuon plant. Mae llawer o ddisgyblion yn nodi'r camau sydd angen eu cymryd i ddatrys problemau yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn cyfrifo sut i ddarganfod maint deinosor o faint ei ôl-troed. Maent yn esbonio eu gwaith gan ddefnyddio iaith fathemategol yn hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod gyson o fedrau digidol i gefnogi eu dysgu a'u helpu i gyfathrebu'n bwrpasol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o apiau a rhaglenni'n hyderus i'w helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth ym meysydd eraill y cwricwlwm, fel mathemateg. Er enghraifft, maent yn rheoli ffigur rhithwir o gwmpas drysfa i ennill dealltwriaeth ystyrlon o onglau cymhleth. Mae llawer ohonynt yn datblygu dealltwriaeth effeithiol o godio sylfaenol ac yn defnyddio hyn yn greadigol, er enghraifft i reoli robot ar sgrin.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r ysgol yn amgylchedd croesawgar ble mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda, mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol fel ei gilydd. Maent yn garedig ac yn barchus tuag at oedolion, a thuag at ddisgyblion eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd ati i gwblhau tasgau'n gyflym, yn canolbwyntio'n dda, ac yn ymgysylltu'n bwrpasol mewn gwersi. Dangosant wydnwch yn eu dysgu, ac maent yn deall yn dda fod gwneud 'camgymeriadau campus' ("marvellous mistakes") yn rhan o'r broses ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn dyfalbarhau â thasgau ac yn ceisio gwella'u gwaith trwy ymarfer, cymryd eu hamser a rhoi eu sylw ffocysedig i dasgau. Yn aml, mae disgyblion yn gefnogol i'w gilydd ac yn gweithio'n dda mewn parau ac mewn grwpiau, er enghraifft wrth ymgymryd â rolau peirianwyr ac adeiladwyr, gan gyfleu gwybodaeth berthnasol i greu strwythurau o flociau adeiladu. Maent yn gwrando'n ofalus ac yn dangos amynedd wrth weithio gyda'i gilydd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn awyddus i gael eu cynnwys mewn penderfynu beth maent yn ei ddysgu. Maent yn ymateb yn dda i adborth llafar sy'n cael ei roi gan eu hathrawon. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio hyn i helpu symud eu dysgu ymlaen yn briodol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu o hyd y mae eu gallu i ystyried eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion, a nodi lle gallai pethau wella.

Mae disgyblion yn dangos yn rhwydd eu dealltwriaeth o egwyddor drosfwaol yr ysgol, sef 'Barod, Diogel, Parch' ('Ready, Safe, Respect'), i feddwl yn ofalus am ddiogelwch personol pawb. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r strategaethau ymddygiad y mae'r ysgol yn eu haddysgu yn ystyriol i gyfrannu at amgylchedd cadarnhaol yr ysgol. Er enghraifft, maent yn ystyried strategaethau ar gyfer rheoli eu hemosiynau eu hunain, fel anadlu'n araf neu ddod o hyd i ffrind y gallant ymddiried

ynddo i siarad ag ef a meddwl am sut gallant gynorthwyo ei gilydd pan fydd angen cymorth arnynt.

Mae disgyblion sy'n ymgymryd â rolau arwain yn gwneud hynny'n aeddfed ac yn gwneud cyfraniadau pwrpasol at fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy rannu syniadau ar gyfer lleihau gwastraff ac annog plant/pobl eraill i ddewis byrbrydau addas fel rhan o ddiet cytbwys. Maent yn sicrhau eu bod yn rhannu negeseuon amgylcheddol pwysig gyda disgyblion, fel gofyn iddynt feddwl yn ofalus am y cynhyrchion y mae eu teuluoedd yn dewis eu prynu a'r ffaith fod rhai cynhyrchion, fel y rhai sy'n cynnwys olew palmwydd, yn effeithio ar yr amgylchedd. Mae'r llysgenhadon iechyd a diogelwch yn gweithio'n fuddiol gyda gofalwr yr ysgol i gadw'r ysgol yn rhydd rhag peryglon, er enghraifft trwy gael gwared ar gerrig o ardaloedd chwarae.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o sut i gadw'n iach trwy ddiet ac ymarfer corff. Maent yn cydnabod pwysigrwydd cael noson dda o gwsg, effeithiau gormod o siwgr ar iechyd a pha fwydydd sy'n ffynonellau egni da. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gref o'r byd digidol a sut i aros yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, pan fyddant yn gwneud gwaith ymchwil, maent yn nodi tudalennau diogel ac yn gwybod sut i ddelio â negeseuon a hysbysebion naid ar y sgrin, pan fyddant yn ymddangos. Maent yn gwybod sut i gadw eu gwybodaeth bersonol yn ddiogel, a sut i adrodd am bryderon i oedolion.

Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth eang o amrywiaeth ddiwylliannol ac yn dangos gofal am bobl eraill trwy drefnu a chymryd rhan mewn digwyddiadau elusennol. Maent yn dechrau deall rhai o'r materion moesegol sy'n wynebu'r byd, fel y problemau a achosir i'r amgylchedd trwy ddatgoedwigo, a'r heriau sy'n wynebu plant wedi eu heffeithio gan ryfel.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol / UCD ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang sy'n cael ei addasu yn unol ag anghenion bron pob un o'r disgyblion. Mae athrawon yn cynnwys disgyblion yn ystyriol wrth benderfynu ar y gweithgareddau i'w cynnwys o fewn eu testunau tymhorol. Defnyddiant yr awgrymiadau hyn i gynllunio ystod o weithgareddau ar draws y cwricwlwm sy'n helpu ennyn diddordeb disgyblion yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn addysgu disgyblion am y grymoedd sy'n symud llong, tra'n cyflawni eu cais i wneud cwch hir Llychlynnaidd. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o deithiau ac ymwelwyr i ymestyn dysgu disgyblion. Mae disgyblion hŷn yn ymweld â'r Amgueddfa Ryfel Ymerodrol ym Manceinion, ac mae disgyblion iau yn elwa ar weithdy deinosoriaid lle maent yn gweld ŵy ac esgyrn deinosor go iawn. Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu paratoadau'r ysgol ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru a datblygu ymagwedd fwy integredig at ddysgu ar draws y chwe maes dysgu a nodir yn fframwaith y cwricwlwm.

Ceir cynllunio clir ar gyfer, a disgwyliadau clir, o ran pa fedrau llythrennedd a rhifedd y dylai athrawon eu datblygu gyda disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn. Yn

gyffredinol, mae hyn yn helpu disgyblion i gaffael mwyafrif o’r medrau hyn yn systematig. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol wedi ystyried yn ddigon meddylgar sut dylai athrawon addysgu’r medrau hyn. Er enghraifft, nid oes ymagwedd glir at sut caiff medrau darllen eu haddysgu. Mae hyn yn golygu nad yw medrau disgyblion bob amser yn datblygu cystal ag y gallent. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol yn gryf ac yn adlewyrchu sut mae medrau digidol yn esblygu mewn cymdeithas yn ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu sut mae gwefannau’n olrhain gweithgarwch ar-lein a sut gall disgyblion ddewis peidio â chael eu dilyn.

Mae gan yr ysgol gynlluniau addas a chynyddol ar waith sy’n cynorthwyo athrawon i strwythuro’r modd y mae disgyblion yn dysgu Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn gweithredu’r rhain yn ddigon da. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg ym mhob dosbarth. Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o weithgareddau gwerth chweil i helpu disgyblion i ddeall am ddiwylliant Cymru yn dda, er enghraifft ystyried ffigurau Cymreig hanesyddol, fel Owain Glyndŵr, a chefnogi Eisteddfod yr Urdd.

Ceir darpariaeth gref ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Y tu mewn a’r tu allan i’r cwricwlwm, ceir rhaglenni buddiol sy’n rhoi strwythur clir i ddatblygu lles disgyblion. Mae’r rhain yn helpu disgyblion i ddeall sut i adnabod ymddygiadau cadarnhaol ynddyn nhw eu hunain ac mewn pobl eraill, a sut i ddatrys problemau rhwng ffrindiau. Mae cyfleoedd da o fewn y cwricwlwm i helpu disgyblion i ddatblygu’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth sydd eu hangen i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw. Er enghraifft, maent yn dysgu am hylendid da ac effeithiau posibl gormod o felysion a diodydd siwgraidd ar eu dannedd ac ar eu hiechyd.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy’n ennyn diddordeb disgyblion yn dda yn eu dysgu, fel datblygu medrau perswadiol disgyblion trwy gynnal trafodaeth ar b’un a ddylent adael i ymwelwyr ddod i’w hynys ddychmygol. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio holi effeithiol i helpu disgyblion i ymestyn eu hatebion a datblygu eu meddwl. Maent yn holi disgyblion yn ofalus, ac mae hyn yn eu helpu i alw dysgu blaenorol i gof yn fuddiol. Wrth i wersi symud ymlaen, mae llawer o athrawon yn monitro dysgu’r disgyblion ac yn rhoi adborth llafar clir sy’n eu galluogi i wella’u gwaith a’u cynorthwyo pan fydd angen cymorth arnynt. Mae adborth ysgrifenedig athrawon i ddisgyblion yn fwy amrywiol ac nid yw bob amser yn helpu disgyblion i ddeall ble gallant wella, na sut.

Mewn mwyafrif o achosion, mae athrawon yn herio disgyblion yn effeithiol, ond nid ydynt yn gwneud hyn yn gyson dda, sy’n golygu bod dysgu weithiau ar lefel rhy isel. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i ddiben penodol profiadau dysgu. Mae hyn yn golygu nad oes ganddynt bob amser syniad digon clir am yr hyn y maent eisiau i ddisgyblion ei gyflawni na sut mae’r profiadau’n gweddu’n ehangach yng nghontinwwm dysgu disgyblion.

Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn dechrau helpu disgyblion i ddeall yn dda beth mae angen iddynt ei wneud i lwyddo. Wrth i ddisgyblion symud yn eu blaenau trwy’r ysgol, mae athrawon yn eu helpu i ddatblygu eu gallu eu hunain i ystyried beth sy’n gwneud darn o waith effeithiol. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn gadarn o ran eu dealltwriaeth o’r broses hon, ac o ganlyniad, mae’r meini prawf hyn

yn tueddu i fod yn rhestr o dasgau y mae angen eu cwblhau. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i lwyddo.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r ysgol yn amgylchedd diogel ac anogol sy’n hyrwyddo caredigrwydd a pharch ymhlith ei disgyblion yn effeithiol. Mae’n darparu awyrgylch gweithio tawel lle mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn ystyriol o bobl eraill, ac yn ymdrin â’u dysgu yn gadarnhaol. Mae’r ffocws diweddar ar gryfhau cymorth ac arweiniad ar gyfer anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn eu galluogi i ymgysylltu’n gadarnhaol â’u dysgu. Caiff y cymorth hwn ei gryfhau ymhellach gan fentrau, fel grŵp anogaeth yr ystafell haul, lle mae disgyblion yn dechrau eu diwrnod yn cyfarfod mewn grŵp bach i fwynhau brecwast gyda’i gilydd. Mae’r dechrau hwn i’r diwrnod, sydd wedi’i gynllunio’n ofalus, yn galluogi disgyblion i ymgartrefu a mynd i’r afael â’u gofidiau cyn ymuno â’u dosbarthiadau. O ganlyniad i ddysgu mynegi a rheoli eu hemosiynau, mae’r disgyblion hyn yn hapusach yn yr ysgol. Mae hyn yn helpu mynd i'r afael â phroblemau presenoldeb gwannach yn yr ysgol hefyd.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i ddelio ag unrhyw anghytuno rhwng disgyblion, ac mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael cymorth da i ddatrys problemau ac anghydfod â’u ffrindiau. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac mae gan lawer ohonynt agwedd frwdfrydig at ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddeall buddion ffordd iach o fyw. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon tîm ac yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau corfforol, fel nofio, ioga a dawns.

Mae’r ysgol yn nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i wneud cynnydd yn effeithiol. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu rhaglenni cymorth targedig ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd, a datblygiad emosiynol disgyblion. Mae staff yn gweithio’n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol i greu cynlluniau cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff y cymorth hwn, ynghyd â chyfathrebu’n rheolaidd â rhieni, effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a’u lles.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd sy’n cyfrannu at ddatblygu credoau ysbrydol a moesegol disgyblion, ac yn cynorthwyo disgyblion i ymchwilio i faterion yn gysylltiedig â goddefgarwch a pharch at bobl eraill. Er enghraifft, mae canolbwyntio ar storïau o’r Beibl yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion fyfyrio ar negeseuon pwysig, fel goddefgarwch a helpu pobl eraill, a’u cysylltu â’u profiadau eu hunain. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i archwilio materion yn ymwneud ag amrywiaeth yn fwy cyfyngedig.

Mae ystod eang o weithgareddau a chyfleoedd yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o’u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant. Er enghraifft, mae ymgymryd â rôl weithredol yn nathliadau Dydd Gŵyl Dewi Dinbych yn datblygu eu gwerthfawrogiad o ddiwylliant Cymru. Mae athrawon yn annog disgyblion i fod yn annibynnol yn eu dysgu, a chyfrannu syniadau am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae digonedd o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu dychymyg ac ymgysylltu â’r celfyddydau creadigol, trwy ystod eang o weithgareddau, fel ymweliadau ag orielau ac amgueddfeydd, creu printiau o bobl leol ddylanwadol a gwyliau dylunio.

Caiff disgyblion ystod gynyddol o gyfleoedd i ddatblygu medrau arwain a pharatoi ar gyfer bywyd oedolyn, er enghraifft trwy eu haelodaeth o'r cyngor ysgol, y criw iechyd a diogelwch ac fel eco arweinwyr. Mae aelodau o'r grwpiau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau ysgol gyfan, fel diwygio'r Cod Eco ac awgrymu gwelliannau ystyriol i'r gweithgareddau corfforol a gynigir i ddisgyblion.

Mae arweinwyr a staff yn monitro presenoldeb disgyblion yn ofalus, yn mynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â phresenoldeb gwael, ac yn cynorthwyo teuluoedd yn effeithiol. Caiff disgyblion sy'n absennol o ganlyniad i salwch tymor hwy eu cynorthwyo i weithio gartref yn dda, ac wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol, cânt gymorth ychwanegol ar gyfer eu dysgu i'w helpu i ailintegreiddio. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn peri pryder. Mae pob un o'r staff yn deall eu rolau mewn gweithdrefnau diogelu ac mae'r ysgol yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod pob disgybl yn ddiogel.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae arweinwyr yr ysgol yn canolbwyntio'n glir ar ddatblygu disgyblion gwydn ac annibynnol, gan feithrin gwaith tîm ymhlith staff, a darparu ystod eang o brofiadau diddorol a difyr ar gyfer disgyblion. Caiff y bwriadau hyn eu deall gan staff a llywodraethwyr, ac mae pob un ohonynt wedi ymrwymo i helpu disgyblion i wneud y gorau o'u hamser yn yr ysgol. Yn ddiweddar, yn ddigon priodol, mae arweinwyr wedi canolbwyntio ar helpu disgyblion i ymgartrefu'n ôl yn yr ysgol ar ôl cyfnod o darfu ar eu dysgu, ac maent yn parhau i hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol strwythur staffio clir, ac mae gan bob aelod o'r tîm arweinyddiaeth gyfrifoldebau priodol o fewn y strwythur hwnnw. Maent yn cynorthwyo ac yn annog athrawon a staff cymorth i weithio gyda'i gilydd yn bwrpasol, er enghraifft wrth arwain mewn cynllunio ar gyfer grwpiau blwyddyn a gweithio mewn timau meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o'u rôl o ran sicrhau bod pobl eraill yn gwneud gwelliannau a gynlluniwyd.

Mae hunanwerthuso'r ysgol yn defnyddio ystod addas o brosesau monitro. Dros gyfnod, mae arweinwyr ac athrawon yn craffu ar waith disgyblion, yn monitro gwersi, yn cymryd rhan mewn trafodaethau staff, ac yn ystyried barn disgyblion a rhieni. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn wedi cael eu cyfyngu yn ystod y pandemig, ond mae amserlen ddefnyddiol ar waith ar gyfer y flwyddyn erbyn hyn, a fydd yn galluogi arweinwyr i ddychwelyd i weithgarwch rheolaidd. Mae gwerthusiad yr ysgol o gynnydd yn erbyn y meysydd i'w gwella y llynedd yn onest. O hyn, mae arweinwyr wedi nodi set o flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn hon, ynghyd â'r camau y mae angen i'r ysgol eu cymryd i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn. Er bod y blaenoriaethau a'r camau hyn yn berthnasol, at ei gilydd, nid yw arweinwyr wedi nodi meysydd pwysig i'w gwella mewn addysgu a dysgu, gan gynnwys addysgu medrau darllen yn bwrpasol, anghysondebau yn ansawdd ysgrifennu disgyblion, a chynnydd annigonol mewn Cymraeg. Mae hyn yn golygu nad yw targedau datblygu bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar yr agweddau a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ddysgu disgyblion a'u cynnydd. Yn ogystal â strategaethau datblygu ysgol gyfan, mae timau sy'n gyfrifol am feysydd dysgu yn creu cynlluniau gweithredu defnyddiol. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar wella darpariaeth ac adnoddau, a dim ond yn nodi ffyrdd o wella dysgu disgyblion yn achlysurol.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o'i gyfrifoldebau. Mae llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn dylanwadu ar ei chyfeiriad yn bwrpasol, er enghraifft trwy annog datblygiad arweinyddiaeth ar y cyd ar draws yr ysgol. Maent yn deall blaenoriaethau presennol yr ysgol a pham maent yn bwysig. Mae llywodraethwyr ac arweinwyr yr ysgol yn rheoli eu cyllideb yn dda, ac mae cynllunio ariannol gofalus wedi helpu'r ysgol i wneud arbedion dros sawl blwyddyn, gan ei galluogi i adfer o ddiffyg yn y gyllideb. Mae'r ysgol yn dyrannu ac yn monitro'r grant datblygu disgyblion a chyllid ychwanegol arall yn ofalus, gan sicrhau ei bod yn cefnogi'r disgyblion perthnasol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae dysgu proffesiynol diweddar wedi canolbwyntio'n bennaf ar roi medrau cadarn i staff i gefnogi iechyd a lles disgyblion, yn enwedig o ran eu medrau personol a chymdeithasol a datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda'i gilydd. Yn gyffredinol, mae prosesau rheoli perfformiad yn gynhwysfawr ac yn helpu nodi rhai o anghenion staff yn briodol. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol ymagwedd strategol glir at ddysgu proffesiynol eto a gwneud yn siŵr fod y dysgu hwn yn cael y canlyniad bwriadedig i gynnydd disgyblion. Mae hyn yn cynnwys sut i wella a mireinio addysgu yn barhaus, er enghraifft nodi dibenion clir ar gyfer gwersi a deall sut mae gwersi'n cyd-fynd â pharhad dysgu ar draws yr ysgol. Nid yw arweinwyr wedi canolbwyntio'n ddigon da ar ddysgu proffesiynol a fydd yn cynorthwyo staff i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o egwyddorion a disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru, a'r medrau a'r wybodaeth i arwain diwygio addysg yn gadarn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  19/05/2022